# Profiad menywod o fod dan gadwad mewnfudo

gan Brif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi

Mehefin 2026

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 3

Pryderon ..... 4

Adran 1 Cefndir ..... 5

Adran 2 Canfyddiadau ..... 9

Atodiad I Methodoleg ..... 22

Atodiad II Rhestr termau ..... 25

Atodiad III Cyfeiriadau ..... 27

Atodiad IV Cydnabyddiaeth ..... 28

# Cyflwyniad

Tra mae dynion a menywod a gedwir o dan bwerau mewnfudo'n rhannu llawer o brofiadau, mae'r adolygiad thematig hwn yn canolbwyntio ar safbwyntiau neilltuol menywod mewn gwahanol leoliadau mewnfudo, a'r problemau penodol sy'n siapio eu hamser dan gadwad.

Ym mis Rhagfyr 2025, roedd 119 o fenywod yn cael eu dal mewn canolfannau symud ymaith a chyfleusterau dal tymor byr preswyl[1], poblogaeth sydd wedi bod yn cynyddu'n gyson ers mis Mawrth 2022. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r twf ehangach dros yr un cyfnod o ran yr arfer o gadw pobl o dan bwerau mewnfudo, gyda nifer y menywod dan gadwad yn cynyddu ar gyfradd ychydig yn gyflymach na chyfradd dynion.

Mae llawer llai o fenywod na dynion yn cael eu dal o dan bwerau mewnfudo yn y Deyrnas Unedig (y DU) ac, o ganlyniad, mae eu profiadau hwy yn dal i gael eu siapio i raddau helaeth gan bolisïau ac arferion a luniwyd yn bennaf ar gyfer dynion. Yn benodol, mae'r rhain yn aml yn methu â chyfrif am y ffaith bod trawma'n fwy cyffredin ymhlith menywod, a all fod wedi'u masnachu, a'r ffaith eu bod yn fwy tebygol o fod yn brif ofalwr ar gyfer eu plant, a thrwy hynny, o fod wedi'u gwahanu oddi wrthynt. Yn aml, ychydig o gymorth arbenigol sydd ar gael i helpu i liniaru'r profiadau hynny.

Serch hynny, mae menywod yn dueddol o roi adroddiad mwy cadarnhaol na dynion am y modd y maent yn cael eu trin gan staff. Mae'r rhan fwyaf o'r menywod sy'n cael eu dal o dan reolaeth fewnfudo hirdymor yn cael eu dal yn amgylchedd cymharol dda Derwentside, canolfan sy'n edrych ac yn teimlo llawer llai fel carchar na'r rhan fwyaf o'r canolfannau symud ymaith.

Yn yr adolygiad hwn, rydym yn dogfennu'r mannau hynny lle y mae'r prosesau presennol yn ddiffygiol ar gyfer menywod, ond hefyd yr hyn sy'n gweithio'n dda. Rydym yn mawr obeithio y bydd hyn yn cynorthwyo'r Swyddfa Gartref a'i chontractwyr i ystyried sut y gallant wella'r cymorth a ddarperir i fenywod ac i ddysgu gwersi ar gyfer trefniadau cadw o bob math o dan y drefn mewnfudo.

**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi
Mai 2026

1 Y Swyddfa Gartref (2026).

# Pryderon

## Pryderon sy'n flaenoriaeth

1. **Mewn canolfannau sy'n dal dynion a menywod, nid oedd anghenion menywod yn cael digon o sylw.** Roedd rhai'n teimlo wedi'u bygylu mewn canolfannau cymysg, ac roedd eraill yn cael eu symudiadau wedi'u cyfyngu ac yn cael mynediad mwy cyfyngedig at wasanaethau. Roedd staff gwrywaidd yn cael eu dyrannu'n amhriodol i ymgymryd â rhai dyletswyddau y dylai swyddogion benywaidd fod wedi ymgymryd â hwy, fel archwilio ystafelloedd yn ystod y nos.

2. **Nid oedd yr hyfforddiant a'r canllawiau a ddarperir i staff yn ddigonol i ddiwallu anghenion menywod â chefndiroedd cymhleth.** Nid oedd llawer o'r staff yn sicr sut orau i gynorthwyo menywod â phrofiad o drawma neu fenywod a oedd yn byw gydag anawsterau iechyd meddwl.

## Pryderon pwysig

3. **Nid oedd materion sy'n peri bod menywod yn agored i niwed yn cael eu nodi na'u mynegi'n gyson.** Weithiau, roedd penderfyniadau Porthgeidwad Cadw'r Swyddfa Gartref ac asesiadau oedolion sy'n wynebu risg yn methu gwybodaeth bwysig am iechyd a materion sy'n peri bod menywod yn agored i niwed, ac nid oedd adroddiadau Rheol 35 bob amser yn cael eu cwblhau pan oedd eu hangen.

4. **Nid oedd gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu'n cael eu defnyddio'n ddigon aml.** Nid oedd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddefnyddio i gyfathrebu o ddydd i ddydd â menywod nad oedd ganddynt afael da ar y Saesneg ac roedd rhy ychydig o wybodaeth wedi'i chyfieithu, gan beri bod rhai menywod yn teimlo'u bod wedi'u hynysu ac, mewn rhai achosion, eu bod yn cael eu hamharchu.


5. **Nid oedd llawer o gymorth rhagweithiol ar gael i fenywod er mwyn iddynt gadw cysylltiad â theulu a ffrindiau, na chymorth i'r rheini nad oedd ganddynt ddim cysylltiad â'u teuluoedd.** Er bod y rhan fwyaf o ganolfannau'n darparu cyfleusterau da ar gyfer ymweliadau, nid oedd gan lawer o fenywod neb a allai ymweld â hwy.

# Adran 1 Cefndir

1.1 Gellir dal menywod a gedwir o dan bwerau mewnfudo naill ai mewn cyfleusterau cadw arbenigol neu yn y carchar. Mae gan y DU wyth canolfan symud ymaith, gyda thair o'r rheini'n dal menywod, a thri chyfleuster dal tymor byr preswyl, gyda dau o'r rheini'n dal menywod. Canolfan Symud Ymaith Derwentside yw'r unig ganolfan bwrpasol ar gyfer menywod dan gadwad. Gallant hefyd gael eu dal am gyfnodau byr[2] mewn cyfleusterau dal dibreswyl, ond nid yw'r Swyddfa Gartref yn cyhoeddi ffigurau poblogaeth ar gyfer y lleoliadau hyn. Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2025[3], roedd 119 o fenywod yn cael eu cadw ar draws tair canolfan symud ymaith, dau gyfleuster dal tymor byr preswyl, ac yn yr ystad carchardai. Roeddent yn cyfrif am 6% o gyfanswm y boblogaeth dan gadwad.

**Ffigur 1: Llawer llai o fenywod yn cael eu dal dan gadwad mewnfudo na dynion**

Cadwad mewnfudo yn y Deyrnas Unedig.




Ffynhonnell: Ystadegau'r system fewnfudo, y Swyddfa Gartref, 2026

1.2 Rhwng 2015 a 2017, gostyngodd nifer y bobl dan gadwad mewnfudo, a hynny'n rhannol oherwydd newidiadau amrywiol yn y defnydd o drefniadau cadw a chynnydd yn y defnydd o ddulliau amgen a gynigiwyd drwy adolygiad Stephen Shaw o'r drefn gadw[4], a bu i'r ffigurau aros yn isel drwy gydol pandemig COVID-19. Dechreuodd nifer y dynion dan gadwad gynyddu o 2021, wedi'i yrru gan gamau i gadw pobl a oedd yn cyrraedd y DU mewn cychod bach, ond mae wedi sefydlogi dros y ddwy flynedd diwethaf. Yn yr ystad mewnfudo benywaidd, bu'r niferoedd yn cynyddu'n gyson ers mis Mawrth 2022, gan adlewyrchu fwy na thebyg y defnydd cynyddol o'r drefn gadw i hwyluso dychwelyd pobl o'r DU[5].

---

4 Y Swyddfa Gartref (2016).

1.3 Yn gyffredinol, mae ein harolygiadau o ganolfannau symud ymaith a chyfleusterau dal tymor byr preswyl yn canfod canlyniadau cymharol gadarnhaol ar gyfer menywod. Yn benodol, mae menywod yn dueddol o roi adroddiadau mwy cadarnhaol na dynion am y berthynas â'r staff a'r cymorth a ddarperir ganddynt. Fodd bynnag, ceir pryderon parhaus, yn enwedig o ran diogelwch a diogelu.

1.4 Yn aml, nid yw staff yn ymwybodol o brofiadau menywod, ac mae eu dealltwriaeth o gaethwasiaeth fodern, o ddiogelu, ac o'r polisi oedolion sy'n wynebu risg (gweler y Rhestr Termau) yn amrywio. O ganlyniad, rydym yn canfod nad yw atgyfeiriadau at gyrff cymorth neu gyrff diogelu priodol bob amser yn cael eu gwneud, ac nad yw polisïau lleol yn adlewyrchu anghenion rhyw-benodol menywod mewn ffordd gyson. Mae data'r Swyddfa Gartref[6] yn dangos, yn genedlaethol, fod 40% o'r menywod a oedd yn cael eu cadw mewn canolfannau symud ymaith ar 19 Awst 2025 wedi'u hasesu fel oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys, ymhlith eraill, ddioddefwyr artaith, dioddefwyr posibl masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern, ynghyd â'r rheini â chyflyrau iechyd meddwl, y rheini ag anghenion iechyd corfforol difrifol, a menywod beichiog[7]. Rhoddodd ein hadolygiadau achos yn Dungavel[8] a Derwentside[9] sylw i'r materion hyn sy'n peri bod menywod yn agored i niwed, ac yn y canolfannau hyn cawsom hyd i hanesion dogfenedig o drais domestig neu drais rhywiol mewn dros hanner ein sampl (naw o 16 achos, ar sail cofnodion achos y Swyddfa Gartref).

1.5 Pan gaiff menywod eu dal ochr yn ochr â dynion, mae ein harolygiadau'n canfod nad yw'r canolfannau bob amser yn gwneud digon i liniaru bygylu posibl. Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2025, roedd 45% o'r menywod dan gadwad mewn canolfan gymysg (Dungavel, Yarl's Wood a chyfleuster dal tymor byr preswyl Manceinion)[10]. Er bod staff yn cadw dynion a menywod dan gadwad ar wahân mewn lleoliadau preswyl, dywedodd menywod eu bod yn teimlo'n anniogel a'u bod weithiau'n cael eu bygylu'n eiriol gan ddynion. Mewn cyfleusterau dal tymor byr preswyl mewn canolfannau adrodd (ystafelloedd dal diogel sydd ynghlwm wrth ganolfannau adrodd mewnfudo), roedd rhaid iddynt weithiau rannu ystafelloedd dal cyfyng a thoiledau â dynion dan gadwad am gyfnodau estynedig.

1.6 Mae menywod yn aml yn treulio gormod o amser dan gadwad. Mae gan lawer hanesion mewnfudo cymhleth, ac, yn aml, ceir oedi cyn eu rhyddhau am nad oes digon o lety mechnïaeth addas ar gael. Rhwng

---

3 Y Swyddfa Gartref (2026).

4 Y Swyddfa Gartref (2016).

5 Y Swyddfa Gartref (2024). 'How many people are detained or returned?'

6 Gwybodaeth reoli'r Swyddfa Gartref (echdynnwyd y data ar 2 Medi 2025).

7 Y Swyddfa Gartref (2024). 'Adults at risk in immigration detention'.

8 Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (2025). Report on an unannounced inspection of Dungavel House Immigration Removal Centre.


9 Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (2025). Report on an unannounced inspection of Derwentside Immigration Removal Centre.

10 Y Swyddfa Gartref (2026).

mis Ionawr a mis Rhagfyr 2025, cafodd ychydig dros hanner y 2,348 o fenywod a adawodd gyfleusterau cadw eu rhyddhau ar fechnïaeth[11] ac roedd bron y cyfan ohonynt (95%) wedi'u cadw am lai na deufis. Yn Derwentside byddent yn cael eu cadw am 25 diwrnod ar gyfartaledd, ac yn Dungavel byddent yn cael eu cadw am 31 diwrnod ar gyfartaledd, ond roedd rhai menywod yn cael eu cadw am hyd at bum mis at ei gilydd (gan ystyried gwahanol ysbeidiau o fod dan gadwad).

**Ffigur 2: Rhyddhawyd dros hanner y menywod a ryddhawyd o ganolfannau symud ymaith ar fechnïaeth**

Menywod dan gadwad mewnfudo yn y Deyrnas Unedig, Ionawr – Rhagfyr 2025.




Ffynhonnell: Ystadegau'r system fewnfudo, y Swyddfa Gartref, 2026

1.7 Mae ymchwil gan rai sefydliadau anllywodraethol wedi atgyfnerthu pryderon sy'n deillio o arolygiadau. Er enghraifft, canfu un adroddiad ddefnydd parhaus o arferion a allai beri trallod, gan gynnwys staff gwrywaidd yn arsylwi ar fenywod yn ystod cyfnodau arsylwi parhaus[12]. Tynnwyd sylw hefyd at effaith cadw ar iechyd a llesiant meddwl menywod, yn ogystal ag ofn dychwelyd a phryder ynghylch eu teuluoedd[13].

## Ffocws yr adolygiad thematig hwn

1.8 Mae'r adolygiad thematig hwn yn adeiladu ar y canfyddiadau hyn i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau menywod ac i nodi meysydd i'w gwella. Mae'n seiliedig i raddau helaeth ar y profiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt gan fenywod sydd wedi bod dan gadwad yn ddiweddar ac ar gofnodion achos y menywod hynny.

---

[11] Ibid.

[12] Women for Refugee Women (2025).

[13] Justice First (2023).

1.9 I strwythuro’r adolygiad hwn, bu inni lunio cyfres o gwestiynau trafod i lywio’r gwaith o gasglu tystiolaeth. I wneud hyn, rhoddwyd ystyriaeth i ganfyddiadau ein harolygiadau blaenorol, gan gynnwys data arolygon, ac roedd yn cynnwys cyfarfodydd â sefydliadau arbenigol sy’n cynorthwyo menywod dan gadwad mewnfudo. Nodir y fethodoleg fanwl yn Atodiad I.

# Adran 2 Canfyddiadau

1.10 Bu inni adolygu profiadau menywod o'r adeg y cânt eu cadw gyntaf hyd nes iddynt gael eu rhyddhau, a bu inni asesu'r driniaeth a gawsant ac amodau eu cadw ym mhob cam. Mae'r adroddiad hwn yn trin a thrafod siwrneiau menywod i ganolfannau mewnfudo, ymhle yr oeddent wedi'u lleoli, eu hymgysylltiad â staff a'u rhwydweithiau cymorth a'u cysylltiad â'u teuluoedd. Tra mae llawer o'r canfyddiadau hefyd yn berthnasol i ddynion, rydym yn canolbwyntio yn yr adroddiad hwn ar faterion neilltuol sy'n effeithio ar fenywod dan gadwad.

## Gwendidau o ran nodi materion sy'n peri bod menywod yn agored i niwed mewn penderfyniadau cadw

1.11 Mae menywod yn ymuno â'r system fewnfudo pan fydd y Swyddfa Gartref yn gwneud y penderfyniad cychwynnol i'w cadw. Yn 2016, sefydlwyd rôl porthgeidwad cadw i ddarparu sicrwydd am benderfyniadau cychwynnol i gadw pobl ac i helpu i sicrhau nad yw unigolion yn cael eu cadw'n amhriodol pan allai hyn beri niwed iddynt. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiadau, bu inni ganfod achosion niferus lle y bu i'r porthgeidwad cadw fethu â nodi materion sy'n peri bod menywod yn agored i niwed, neu fethu â'u harchwilio'n ddigonol, cyn awdurdodi penderfyniad cychwynnol i gadw unigolyn. Roedd hyn yn cynnwys menywod â hanesion sylweddol o iechyd meddwl gwael, menywod a oedd wedi goroesi trais seiliedig ar rywedd, dioddefwyr caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, a menywod a oedd wedi datgelu eu bod yn feichiog. Roedd yn destun pryder, mewn rhai achosion, fod gwybodaeth a oedd eisoes wedi'i chofnodi yng nghofnodion y Swyddfa Gartref, mewn cofnodion meddygol neu mewn cofnodion carchar wedi'i diystyru, a bod menywod wedi'u hasesu'n anghywir fel menywod heb ddim pryderon iechyd.

1.12 Mewn un achos, cafodd menyw ei chadw am 138 awr er ei bod wedi dod i'r wlad yn gyfreithlon. Roedd ganddi hanes o iselder ac fe'i haseswyd fel oedolyn sy'n wynebu risg lefel 2 (oedolyn y bernir gan broffesiynolion ei fod yn wynebu risg; gweler y Rhestr Termau) pan gafodd ei chadw gyntaf. Yn sgil hynny, bu iddi fygwth ei lladd ei hun yn fynych tra oedd dan gadwad, rhywbeth a barodd i staff ei chynorthwyo drwy ddull rheoli achos asesu, gofal dan gadwad a gwaith tîm (ACDT; gweler y Rhestr Termau), a'i monitro'n barhaus.

1.13 Bu inni ganfod dau achos lle y cafodd menywod eu cadw er i'r porthgeidwad cadw wrthod awdurdodi eu cadw. Roedd gan un o'r menywod hyn hanes sylweddol o gamdriniaeth rywiol ac roedd wedi rhoi gwybod am iselder ac ymgeisiau i'w lladd ei hun yn ystod cyfweliad lloches. Bu iddi wynebu trallod a'i niweidio ei hun tra oedd dan gadwad. Cafodd yr ail fenyw ei chanfod yn gweithio fel gweithiwr rhyw, fe'i cadwyd ac yna fe'i rhyddhawyd yn ddigartref ar ôl iddi roi gwybod i staff nad oedd ei chyfeiriad rhyddhau yn ddiogel.

1.14 Mae mynediad timau gwaith achos y Swyddfa Gartref at wybodaeth am honiadau masnachu pobl menywod a materion sy'n peri eu bod yn agored i niwed yn gyfyngedig gan fod timau penderfynu'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn defnyddio system cofnodion achos electronig wahanol. Bu inni ganfod bod swyddogion mewnfudo wedi methu ag ymchwilio weithiau i amgylchiadau menywod er bod arwyddion clir o fasnachu pobl pan gawsant eu cadw gyntaf.

**Enghraifft o achos: Cadw menyw â salwch meddwl ar wahân am gyfnod estynedig**

Rhoddwyd Ms A dan gadwad ar y dyddiad yr oedd disgwyl iddi gael ei rhyddhau o ddedfryd fer o garchar. Gwnaed y penderfyniad hwn er gwaethaf y ffaith ei bod mewn argyfwng iechyd meddwl acíwt a'i bod yn cael ei thrin â meddyginiaeth gwrthseicotig a thawelyddion. Bu i'r porthgeidwad cadw awdurdodi ei chadw, gan ddweud nad oedd unrhyw faterion yn peri ei bod yn agored i niwed. Yn ddiweddarach, fe'i trosglwyddwyd i ganolfan symud ymaith lle y cafodd pryderon iechyd meddwl eu nodi ar unwaith. Cyn pen wythnos, cafodd ei chadw ar wahân er ei diogelwch ei hun. Bu i adroddiad Rheol 35 (1) (gweler y Rhestr Termau) gadarnhau nad oedd yn ffit i'w chadw ac nad oedd yn briodol ei chadw ar wahân. Cafodd Ms A ei hasesu fel oedolyn sy'n wynebu risg lefel 3 (gweler y Rhestr Termau). Bu iddi barhau i gael ei chadw ar wahân am bron i dri mis cyn i atgyfeiriad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl arwain at ei throsglwyddo i'r ysbyty.

**Enghraifft o achos: Diffyg galluedd meddyliol**

Roedd Ms B yn byw mewn hostel yn y gymuned ar gyfer pobl ddigartref, a bu i swyddogion gorfodi mewnfudo drefnu i weithiwr cymdeithasol fod yn bresennol pan fu iddynt ei rhoi dan gadwad oherwydd 'problemau iechyd meddwl difrifol'[14]. Nododd y swyddog cadw nad oedd wedi cael yn agos ddigon o faeth a'i bod yn ei chael yn anodd cyfathrebu pan fyddai cwestiynau'n cael eu gofyn iddi. Ni chafodd yr arsylwadau hyn eu cynnwys yn yr atgyfeiriad at y Porthgeidwad Cadw a bu iddo yntau awdurdodi ei chadw'n ddiweddarach y diwrnod hwnnw ar y sail bod yr unigolyn 'mewn iechyd cyffredinol da heb ddim pryderon penodol ei bod yn agored i niwed'. Ddeuddydd yn ddiweddarach, rhoddwyd gwybod i'r Swyddfa Gartref fod seiciatrydd wedi penderfynu nad oedd ganddi alluedd meddyliol ac fe'i trosglwyddwyd i'r ysbyty o dan un o adrannau'r Ddeddf Iechyd Meddwl o fewn pythefnos.

**Enghraifft o achos: Dioddefwr caethwasiaeth fodern**

Daeth yr heddlu o hyd i Ms C, menyw dan gadwad yr oedd y Swyddfa Gartref wedi derbyn yn flaenorol iddi fod yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern, mewn lleoliad yr amheuwyd ei fod yn buteindy. Rhoddodd yr heddlu

[14] Daw'r wybodaeth o gofnod ATLAS.

wybod i'r Swyddfa Gartref eu bod yn gwneud atgyfeiriad o dan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Er gwaethaf hanes y fenyw, fe'i rhoddwyd dan gadwad.

## Trosglwyddiadau amhriodol a defnydd amhriodol o ataliadau

1.15 Gan mai nifer gyfyngedig o gyfleusterau cadw yn y DU sydd wedi'u dynodi fel rhai y gellir dal menywod dan gadwad ynddynt, roedd menywod yn aml yn wynebu siwrneiau hir, ac weithiau byddent yn cael eu trosglwyddo sawl gwaith yn olynol yn gyflym. Roedd llawer o'r trosglwyddiadau hyn yn digwydd yn y nos er hwylustod gweithredol, ar sail patrymau sifft y tîm hebrwng ac amserlenni'r Uned Hebrwng Pobl dan Gadwad a Rheoli'r Boblogaeth (DEPMU), a hynny weithiau gyda chriwiau o ddynion yn unig. Yn Derwentside, cyrhaeddodd tua 30% o'r menywod rhwng 10pm a 7am dros gyfnod o dri mis.

1.16 Mewn rhai achosion, trosglwyddwyd menywod a oedd yn feichiog, menywod a oedd yn gorfforol sâl neu fenywod a oedd yn wynebu risg o hunan-niwed neu hunanladdiad, heb fawr ddim ystyriaeth o'u hiechyd nac o briodoldeb y trosglwyddiad. Gallai'r siwrneiau hyn darfu arnynt a'u llethu a gallent ddwysáu ymhellach gyflyrau iechyd a oedd yn bodoli eisoes. Disgrifiodd un fenyw'r broses o gael ei throsglwyddo fel 'artaith seicolegol'.

**Enghraifft o achos: Trosglwyddiad amhriodol menyw sâl**

Cafodd Ms D, menyw yn ei 70au hwyr, ei chadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl pan gyrhaeddodd y DU. Aseswyd ei bod yn ffit i gael ei rhyddhau o'r ysbyty y mis canlynol ac fe'i trosglwyddwyd i ganolfan symud ymaith cyn ei throsglwyddo i gyfleuster dal tymor byr preswyl. Pan gyrhaeddodd y ganolfan symud ymaith, roedd Ms D mewn 'argyfwng gorbwysedd' (cynnydd difrifol, cyflym mewn pwysedd gwaed) ac aethpwyd â hi i'r ysbyty i gael asesiad brys, cyn iddi ddychwelyd yn ystod oriau mân y bore canlynol. Er i staff fynegi pryderon am ei lles a'i disgrifio fel rhywun 'dryslyd iawn, iawn' ac er nad oeddent yn deall fawr ddim am eu hamgylchiadau, gadawodd y cyfleuster yn hwyr y nos i gael ei hebrwng i ganolfan symud ymaith arall, gan gyrraedd yno yn ystod yr oriau mân.

**Enghraifft o achos: Trosglwyddo menyw feichiog**

Bu i swyddogion mewnfudo mewn un cyfleuster dal tymor byr wfftio pryder Ms E y gallai fod yn feichiog, gan gredu ei bod yn dweud celwydd i lesteirio'r broses o'i rhoi dan gadwad. Fe'i gyrrwyd i ganolfan symud ymaith, gan gyrraedd yno wedi hanner nos, lle y cafodd ei beichiogrwydd ei gadarnhau'n gynnar iawn y bore nesaf. Fe'i rhyddhawyd y diwrnod canlynol filltiroedd lawer o'r man lle'r oedd yn byw.

**Enghraifft o achos: Trosglwyddo menyw sâl yn hwyr y nos**

Rhoddwyd Ms F dan gadwad mewn canolfan adrodd er iddi roi gwybod i staff ei bod mewn rhywfaint o boen ar ôl cael erthyliad y diwrnod blaenorol. Fe'i trosglwyddwyd i ganolfan symud ymaith yn ystod oriau mân y bore.

1.17 Daethom hefyd ar draws arferion sy'n destun pryder o ran y defnydd o efynnau. Er bod hyn yn angenrheidiol weithiau er diogelwch, nid oedd gefynnu bob amser yn cael ei ddefnyddio fel dewis olaf. Mewn rhai achosion, nid oedd dim tystiolaeth i gyfiawnhau defnyddio gefynnau, ac nid oedd penderfyniadau wedi ystyried a oedd unigolion yn agored i niwed na rhoi sylw i asesiadau risg. Yng nghanolfannau symud ymaith Dungavel a Derwentside, byddai menywod yn cael eu gefynnu fel mater o drefn i'w trosglwyddo i'r ysbyty o dan ganllawiau caeth y Swyddfa Gartref. Yng nghyfleusterau dal tymor byr Ruskin Square a Sheffield, byddai menywod yn cael eu gefynnu fel mater o drefn pan fyddent yn cael eu tywys i faniau hebrwng a oedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd diogel, heb asesiadau risg unigol. Mewn rhai achosion, byddai menywod yn cael eu gefynnu i'w hebrwng mewn ardaloedd anniogel, hyd yn oed pan nad oedd timau arestio wedi defnyddio ataliadau yn gynharach y diwrnod hwnnw.

**Enghraifft o achos: Gefynnu menyw ag anhwylder straen ôl-drawmatig**

Rhoddwyd Ms G dan gadwad ar ddiwedd ei dedfryd o garchar. Cwblhawyd asesiad gan seicolegydd clinigol a oedd yn dweud bod Ms G wedi ymgyflwyno ag iselder ac anhwylder straen ôl-drawmatig cymhleth. Roedd Ms G hefyd wedi cael archwiliadau oherwydd pryderon meddygol eraill a bu angen iddi fynd i'r ysbyty. Gan fod yr ymweliad oddi ar y safle, cafodd Ms G ei gefynnu; parodd hyn drallod iddi oherwydd iddo danio atgof am gamdriniaeth gorfforol flaenorol. Rhoddodd wybod i'r seicolegydd clinigol ei bod wedi osgoi rhoi gwybod am boen ar ôl hynny oherwydd bod arni ofn cael ei gefynnu eto.

**Enghraifft o achos: Gefynnu menyw feichiog**

Rhoddwyd Ms H dan gadwad mewn maes awyr ac fe'i trosglwyddwyd i ganolfan symud ymaith, gan gyrraedd yn hwyr y diwrnod canlynol. Pan gyrhaeddodd, gwnaeth Ms H brawf beichiogrwydd a ddangosodd ei bod yn feichiog ac fe'i haseswyd fel oedolyn sy'n wynebu risg lefel 3. Ceisiodd y Swyddfa Gartref symud Ms H ymaith o'r wlad cyn pen ychydig ddyddiau, ond roedd gormod o bobl wedi'u bwcio ar yr hediad. Daeth Ms H yn aflonydd er bod cofnodion y Swyddfa Gartref yn ei disgrifio fel rhywun a oedd yn ofidus iawn, ond nid yn ymosodol. Penderfynwyd gefynnu Ms H er gwaethaf polisi'r Swyddfa Gartref ar fenywod beichiog sy'n dweud na chaniateir defnyddio ataliadau oni bai bod hynny'n angenrheidiol i atal y fenyw rhag ei niweidio ei hun neu rywun arall.

1.18 Er gwaethaf y pryderon hyn, rhoddodd y rhan fwyaf o fenywod adroddiadau cadarnhaol am eu triniaeth gan staff hebrwng. Yn ein harolygon, dywedodd 92% o'r ymatebwyr sy'n byw yn Derwentside ac yn uned y menywod yn Dungavel iddynt gael eu trin yn dda iawn neu'n eithaf da yn ystod eu siwrnai i'r ganolfan symud ymaith, a bu i fenywod a gafodd eu cyf-weld gennym ddefnyddio termau fel caredig, cwrtais a chynnes i ddisgrifio staff hebrwng.

## Cydleoli a diogelwch

1.19 Roedd rhai canolfannau symud ymaith a chyfleusterau dal tymor byr preswyl yn dal menywod a dynion. Yn Yarl's Wood, roedd llety'r dynion yn edrych dros iard ymarfer y menywod, er bod symudiad dynion o amgylch y ganolfan yn cael ei atal i ganiatáu i fenywod fynd i ardaloedd penodol heb iddynt ddod i gysylltiad â dynion. Yng nghanolfan symud ymaith Dungavel, roedd menywod wedi'u cyfyngu i uned breswyl fach oni bai eu bod yn cael eu hebrwng gan staff, tra oedd dynion yn rhydd i symud o amgylch y ganolfan. Gwelodd arolygwyr ddynion dan gadwad yn edrych drwy ffenestri ystafelloedd gwely menywod, a daeth grŵp o ddynion at arolygwyr i ofyn pam nad oedd modd iddynt gymysgu â menywod dan gadwad. Ar adeg ein harolygiad, roedd y ganolfan yn dal dyn dan gadwad yr aseswyd ei fod yn peri risg o niwed i fenywod, a bu inni hefyd ddarganfod bod dyn dan gadwad a oedd yn wynebu erlyniadau am droseddau rhyw wedi bod yn cael ei ddal yno ers dros flwyddyn tan yn fuan cyn ein harolygiad. Dywedodd rhai menywod na fyddent fyth yn gadael uned y menywod oni bai bod hynny'n hollol angenrheidiol, tra oedd eraill yn gyndyn o wneud hynny hyd yn oed pan fyddent yn cael eu hebrwng.

1.20 Mewn canolfannau lle'r oedd menywod wedi'u cydleoli â dynion, dywedodd rhai menywod a gafodd eu cyf-weld gennym nad oeddent yn teimlo'n ddiogel a bod eu gallu i gael mynediad at gyfleusterau'n fwy cyfyngedig. Canolfan symud ymaith Derwentside oedd yr unig ganolfan a oedd yn darparu amgylchedd i fenywod yn unig, gan ddarparu mwy o ryddid i'r menywod symud a lleihau'r risg o niwed a theimladau ansicr. Yn ein harolygon, dim ond 5% o'r menywod yn Derwentside a ddywedodd eu bod wedi teimlo'n anniogel yn yr ardaloedd awyr agored, tra oedd 43% o'r menywod yn Dungavel wedi dweud hynny.



**Yr ardal awyr agored yn Derwentside**

1.21 Mewn mannau eraill, roedd y mannau ar wahân ar gyfer menywod yn aml yn anniogel. Byddai menywod yn cael eu dal yn yr un ystafelloedd dal â dynion nad oeddent yn gysylltiedig â hwy mewn rhai cyfleusterau dal tymor byr, yn cael eu rhoi mewn ardaloedd anniogel y gallai dynion dan gadwad fynd iddynt, ac yn cael eu gofyn i rannu cyfleusterau cyswllt. Roedd dulliau o amddiffyn menywod yn dibynnu gormod ar gyfyngu ar eu symudiadau hwythau yn hytrach na chreu amgylchedd diogel ar eu cyfer. Yng nghyfleuster dal tymor byr Larne, byddai menywod yn gyffredinol yn cael eu dyrannu i ystafell bwrpasol ar gyfer unigolion 'agored i niwed' gyda chloch a theledu, rhywbeth y dywedwyd wrthym ei fod yn lleihau'r angen iddynt symud o amgylch y ganolfan.



**Ystafell ar gyfer unigolion dan gadwad 'agored i niwed' yn Larne**

1.22 Dywedodd menywod y bu inni siarad â hwy yng nghanolfannau symud ymaith Dungavel ac Yarl's Wood eu bod yn teimlo'n 'anghyfforddus iawn' a heb fod yn '100% diogel' mewn unedau preswyl a thra oeddent yn symud o amgylch canolfannau sy'n dal dynion a menywod. Dywedodd menywod yn Yarl's Wood hefyd iddynt wynebu sylwadau amhriodol a rhywioledig, gan gynnwys pan oeddent yn eu hystafelloedd ac ar yr iard ymarfer.

**Enghraifft o achos: Profiad blaenorol o gamdriniaeth rywiol**

Yn Dungavel, bu i staff ddwyn i gof fenyw a oedd wedi datgelu iddi gael ei threisio. Roedd wedi egluro wrth staff fod dim ond cerdded o amgylch y ganolfan yn gwneud iddi deimlo'n anniogel.

"Allwn ni [ddim] mynd allan oherwydd y dynion ac mae'r amser sydd ar gael i ni wneud pethau'n gyflym o'u herwydd nhw."

Menyw dan gadwad yng nghanolfan symud ymaith Dungavel



**Dynion dan gadwad yn edrych drwy ffenestri'r uned i fenywod yn Dungavel**

## Deall anghenion penodol menywod

1.23 Yn ystod ein hymweliadau, daethom yn bennaf ar draws staff ymroddedig a oedd yn gweithio'n galed i gynorthwyo poblogaeth gymhleth. Yn ein harolygon, dywedodd 83% o'r ymatebwyr a oedd yn byw yn Derwentside ac yn uned y menywod yn Dungavel eu bod yn cael eu trin â pharch gan staff bob amser neu gan mwyaf, a dywedodd 94% o'r ymatebwyr fod ganddynt aelod staff y gallent droi ato os oedd ganddynt broblem. Ar draws y safleoedd, bu inni arsylwi ar lawer o ryngweithiadau cadarnhaol, a dywedodd menywod wrthym yn gyson mai cymorth staff oedd un o'r agweddau mwyaf cadarnhaol ar fod dan gadwad. Dywedodd un fenyw yng nghanolfan Derwentside wrthym eu bod 'yn dod â phobl sydd wedi marw (y tu mewn) yn fyw' a disgrifiodd menyw arall staff fel pobl 'tosturiol a gofalgar iawn'.

1.24 Serch hynny, roedd bylchau o ran gwybodaeth staff yn y rhan fwyaf o'r canolfannau a oedd yn golygu nad oedd menywod bob amser yn cael cymorth digonol wedi'i dargedu. Nid oedd swyddogion dalfa pobl dan gadwad ond yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol o ran iechyd meddwl, caethwasiaeth fodern, masnachu pobl a thrais ar sail rhywedd. Roedd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu drwy raglenni e-ddysgu a dywedodd llawer o'r staff wrthym y byddent yn dibynnu ar i staff gofal iechyd a rheolwyr gweithredol nodi pryderon o'r fath ac ymateb iddynt. Roedd hyn yn cynyddu'r risg y byddai arwyddion a fyddai'n dangos bod menywod yn agored i niwed yn cael eu diystyru ac yn peri y gallai fod rhaid i fenywod ddatgelu profiadau trawmatig i sawl aelod staff cyn bod modd iddynt gael cymorth. Yn ogystal, nid oedd gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu fel mater o drefn â staff yr

unedau er mwyn iddynt allu darparu ymyriadau wedi'u teilwra. Yn Yarl's Wood, dywedodd un aelod staff wrthym fod hyn weithiau'n peri 'ein bod yn dod i wybod [sut i weithio gyda hwy] drwy beri gofid iddynt'.

1.25 Roedd y bylchau hyn yn amlwg mewn cynlluniau gofal i oedolion agored i niwed a phrosesau ACDT. Mewn un achos, roedd gan fenyw a ddywedodd wrth arolygwyr ei bod wedi wynebu 'gormod o ddioddefaint' gynllun gofal i oedolyn agored i niwed a oedd dim ond yn nodi ei bod yn ei chael yn anodd ymgysylltu â'i chyfreithiwr, ac nid oedd dim tystiolaeth fod ei phrofiadau yn y gorffennol wedi'u trin a'u trafod yn ystod adolygiadau achos. Bu i rai menywod adleisio'r pryderon hyn, gan ddweud bod staff yn ofalgar ac yn gyfeillgar ond nad oeddent yn gallu darparu cymorth priodol, fel cymorth seicolegol arbenigol.

1.26 Yn fwy cadarnhaol, yn Dungavel a Derwentside, roedd timau ymgysylltu'r Swyddfa Gartref wedi cwblhau hyfforddiant ymarfer ystyriol o drawma y bwriadwyd iddo roi'r sgiliau iddynt hwyluso cyfathrebu effeithiol ac empathetig ac ymateb yn briodol i anghenion menywod a materion a oedd yn peri eu bod yn agored i niwed. Roedd staff y Swyddfa Gartref y bu inni siarad â hwy yn sôn yn gadarnhaol am y ffordd yr oedd yr hyfforddiant hwn wedi dylanwadu ar eu hymarfer. Roedd hyn yn cynnwys gofyn fel mater o drefn i fenywod gan bwy y byddent yn hoffi cael eu cyf-weld, a chynnig seibiannau rheolaidd yn ystod y broses. Yn ogystal, yn Derwentside, roedd gweithiwr cymdeithasol iechyd meddwl yn gweithio gyda goroeswyr trais domestig.

1.27 Er nad oedd hyfforddiant wedi'i dargedu ar gael i staff, bu inni weld rhai enghreifftiau o arfer da. Mewn un ganolfan, treuliodd rheolwr amser yn siarad â menyw a oedd wedi cael pwl o banig, gan feithrin perthynas broffesiynol gadarnhaol â hi. Roedd y fenyw'n teimlo bod modd iddi ddatgelu profiad blaenorol o drais a chaethwasiaeth fodern. Agorwyd cynllun cymorth gan y rheolwr ac aeth ati hefyd i lenwi ffurflen 'Rhan C' (gweler y Rhestr Termau) i sicrhau bod y Swyddfa Gartref yn gwybod am y gamdriniaeth ac i bwysleisio'r angen am atgyfeiriad o dan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

## Gwendidau o ran asesu materion a oedd yn peri bod menywod yn agored i niwed

1.28 Yn ystod ein harolygiadau, daethom ar draws enghreifftiau o sefyllfaoedd lle nad oedd materion a oedd yn peri bod menywod yn agored i niwed yn cael eu nodi'n gywir na'u cyfathrebu'n ddigonol, gan danseilio prosesau diogelu. Roedd hyn yn cynnwys unigolion nad oeddent wedi'u hadnabod fel oedolion sy'n wynebu risg o dan bolisi'r Swyddfa Gartref, er gwaethaf tystiolaeth glir o risgiau perthnasol. Cafodd eraill eu hasesu ar lefel is nag a oedd yn briodol. Ni chafodd un fenyw ei hasesu ar y lefel risg uchaf er ei bod yn dioddef seicosis a mania acíwt, er nad oedd ganddi alluedd meddyliol ac er bod disgwyl iddi gael ei throsglwyddo i'r ysbyty o dan un o adrannau Deddf Iechyd Meddwl 1983. Roedd diffyg canllawiau hefyd i swyddogion dalfa pobl dan gadwad a oedd yn ei chael yn anodd gweithio'n effeithiol gyda hi (gweler paragraff 2.15).

1.29 Yn ogystal, bu i dimau'r Swyddfa Gartref fethu â rhoi gwybod weithiau i ganolfannau am faterion a oedd yn peri bod menywod yn agored i niwed, tra oedd cyfweliadau o ansawdd gwael, diffyg preifatrwydd, a chyfieithu anghyson wedi llesteirio ymhellach allu menywod i ddatgelu eu pryderon eu hunain. Nid oedd gweithwyr achos y Swyddfa Gartref bob amser yn cael diweddariadau am amgylchiadau menywod gan gontractwyr canolfannau a staff y Swyddfa Gartref, ac roedd dogfennau pwysig – fel adroddiadau Rheol 35 neu 32 a gwaith papur Rhan C — yn aml ar goll neu heb fod yn ddigon manwl, yn enwedig o ran effaith parhau i fod dan gadwad. Mewn canolfannau symud ymaith, roedd arweinwyr wedi gwella'r broses o rannu gwybodaeth drwy sefydlu cyfarfodydd AAR wythnosol, gan ddarparu fforwm defnyddiol i adolygu a rhannu gwybodaeth am faterion a oedd yn peri bod menywod yn agored i niwed.

**Enghraifft o achos: Rhoi menyw dan oruchwyliaeth barhaus**

Mewn un achos, roedd staff canolfan symud ymaith yn pryderu cymaint am fenyw nes iddynt ei chadw dan oruchwyliaeth barhaus am fwy na phythefnos, gan fynd â deunyddiau rhwymo oddi arni, a dim ond caniatáu iddi eillio dan oruchwyliaeth. Er hyn, ni chyflwynwyd adroddiad Rheol 35 i roi diweddariad i berchennog achos y Swyddfa Gartref am amgylchiadau'r fenyw a'r materion a oedd yn peri ei bod yn agored i niwed.

## Rôl staff gwrywaidd o ran dyletswyddau lles a diogelwch

1.30 Mewn rhai canolfannau, gwelsom arferion meddylgar y bwriadwyd iddynt ddiogelu urddas menywod a'u hymdeimlad o ddiogelwch. Yn Yarl's Wood, er enghraifft, gallai staff gwrywaidd ddarparu gwasanaeth llanw yn yr uned Nightingale ar gyfer menywod, ond ni chaent gyflawni dyletswyddau fel chwilio ystafelloedd, cynnal gwiriadau noson gyntaf, cadw goruchwyliaeth barhaus na chynnal gwiriadau ACDT pan oedd menyw yn ei hystafell. Roedd canolfan symud ymaith Dungavel wedi mynd ati mewn ffordd debyg i staffio ei huned i fenywod, Hamilton House, gyda swyddogion benywaidd yn unig, gan wneud yn siŵr mai'r swyddogion hynny oedd bob amser yn cynnal gwiriadau lles, gwiriadau ACDT a goruchwyliaeth barhaus.

1.31 Fodd bynnag, nid oedd y mesurau diogelu hyn yn gyson ar draws pob safle. Yn Derwentside ac mewn cyfleusterau dal tymor byr preswyl, roedd prinder staff benywaidd ac ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r effaith ar fenywod dan gadwad yn golygu bod swyddogion gwrywaidd yn ymgymryd â rhai o'r dyletswyddau. Roedd y rhain yn cynnwys asesiadau ACDT, gwiriadau lles noson gyntaf, a gwiriadau ystafell, dyletswyddau a oedd yn aml yn cael eu dyrannu ar sail argaeledd staff yn hytrach nag anghenion y menywod dan gadwad. Fodd bynnag, ym mhob canolfan symud ymaith, aelodau benywaidd o'r staff oedd yn ymgymryd â dyletswyddau goruchwylio parhaus.

**Enghraifft o achos: Menyw a oedd yn cael cymorth o dan gynllun ACDT**

Roedd Ms J wedi datgelu i staff canolfan symud ymaith fod dynion yn tanio'i meddyliau hunanladdol yn sgil trawma yr oedd wedi'i wynebu yn y gorffennol. Er iddi ddatgelu'r wybodaeth hon, cynhaliwyd ei hasesiad ACDT cychwynnol gan swyddog gwrywaidd, ac yn ddiweddarach dyrannwyd gweithiwr allweddol a chydgysylltydd achos ACDT gwrywaidd iddi. Nid oedd ei chynllun gofal yn crybwyll o gwbl yr angen i wneud yn siŵr mai dim ond staff benywaidd oedd yn ymwneud â'i gofal.

## Rhwystrau ieithyddol a theimlo'n ynysig

1.32 Roedd rhwystrau ieithyddol yn sylweddol. Yn ein harolwg, dim ond 40% o'r menywod yng nghanolfannau symud ymaith Derwentside a Dungavel a ddywedodd eu bod yn gallu deall Saesneg llafar yn eithaf da neu'n dda iawn. Ar y cyfan, roedd staff yn hyderus o ran defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu proffesiynol, ac roeddent yn cael eu defnyddio'n briodol ar gyfer prosesau allweddol lle'r oedd cyfrinachedd a diogelwch yn hollbwysig, fel cyfweliadau derbyn, ymgyngoriadau gofal iechyd, ac adolygiadau ACDT. Yn Derwentside, ymhlith yr ymdrechion i gryfhau'r ddarpariaeth roedd creu rhestr o staff amlieithog a oedd yn barod i gynorthwyo pan oedd angen.

1.33 Fodd bynnag, hyd yn oed mewn canolfannau sy'n gwneud defnydd mawr o'r gwasanaethau hyn, roedd pwysigrwydd rhyngweithiadau anffurfiol bob dydd yn cael ei ddiystyru'n aml ac roedd menywod yn dweud eu bod yn teimlo'n ynysig, yn unig ac wedi'u hamharchu.

"Mae peidio â gallu siarad Saesneg a'r ffaith nad oes neb arall yn siarad fy iaith fel byw mewn cawell."

Menyw dan gadwad yng nghanolfan symud ymaith Dungavel

1.34 Daethom o hyd i enghreifftiau lle nad oedd gwasanaeth cyfieithu wedi'i ddefnyddio ar gyfer prosesau cynefino na gwiriadau lles, er iddo gael ei ddefnyddio yn ystod y cyfnod derbyn. Mewn rhai achosion, nid oedd llechi cyfieithu llaw yn gweithio, ac roedd staff yn troi at siarad yn uchel neu ddefnyddio ystumiau i gyfathrebu. Roedd signal gwael ar rai safleoedd yn cyfyngu ymhellach ar weithrediad y llechi, er bod bwriad cyflwyno ffonau symudol â gwasanaeth WiFi ar draws yr ystad cadw er mwyn gwella mynediad staff a phobl dan gadwad ar wasanaethau cyfieithu.

1.35 Ar draws y canolfannau symud ymaith, roedd deunyddiau wedi'u cyfieithu'n brin. Yn aml, nid oedd menywod yn cael gwybodaeth yn eu hieithoedd eu hunain am brosesau canolfannau, ymweliadau, na bwydlenni. Mewn rhai canolfannau symud ymaith, nid oedd ciosgau y bwriadwyd iddynt ddarparu gwybodaeth amlieithog ond yn arddangos testun Saesneg y tu hwnt i'r brif sgrin. Mewn cyferbyniad, roedd y rhan

fwyaf o'r cyfleusterau dal tymor byr mewn canolfannau adrodd yn darparu ffolderi gwybodaeth wedi'u trefnu'n dda mewn amrywiaeth o ieithoedd gwahanol, gan ddarparu manylion am y prif brosesau a'r hyn y gallai pobl ei ddisgwyl mewn canolfannau symud ymaith lleol.

1.36 Weithiau, byddai grwpiau mwy o bobl o genedl benodol yn cau'r bwlch hwn, oherwydd gallai un unigolyn dan gadwad gyfieithu ar ran y lleill. Ond pan nad oedd y cymorth hwn ar gael, yn aml nid oedd menywod yn cyfathrebu'n rheolaidd, roeddent yn dod yn ynysig ac nid oedd ganddynt gysylltiad rheolaidd â neb.

> "Rydw i'n teimlo fy mod yn cael fy amharchu am nad ydw i'n siarad yr iaith. Dydw i ddim gwybod a ydyn nhw'n gwneud hynny'n fwriadol."
>
> Menyw dan gadwad yng nghanolfan symud ymaith Derwentside

1.37 Mewn un ganolfan, gwelsom fenyw dan gadwad yn siarad â dyn dan gadwad drwy ffenestr. Pan ofynnwyd iddi am hyn, eglurodd y fenyw nad oedd hi'n adnabod y dyn ond bod siarad ag ef yn gyfle iddi gyfathrebu yn ei hiaith ei hun: roedd staff wedi cymryd yn ganiataol mai'r dyn dan gadwad oedd partner y fenyw. Dywedodd menyw arall nad oedd yn siarad yr un gair o Saesneg wrthym nad oedd hi'n cyfathrebu fawr ddim â neb, ei bod yn nodi treigl amser drwy ei phrydau bwyd, a'i bod yn aros i'w diwrnodau basio.

## Rhwydweithiau cymorth a chysylltu â theuluoedd

1.38 Yn gyffredinol, canfuwyd bod cyfleoedd da i gael ymweliadau a galwadau fideo cymdeithasol ym mhob canolfan symud ymaith. Roedd y cyfleoedd hyn ar gael bob dydd ac weithiau heb fod angen trefnu ymlaen llaw. Yn Derwentside, roedd staff ymweliadau'n mynd ati i gysylltu â phawb a oedd wedi trefnu ymweliad i egluro'r broses ac i ateb cwestiynau, gan greu profiad mwy cefnogol. Roedd canolfannau symud ymaith Derwentside a Dungavel yn darparu cludiant am ddim o orsafoedd lleol, rhywbeth a oedd yn arbennig o ddefnyddiol o ystyried eu lleoliadau anghysbell a'r pellteroedd y byddai ymwelwyr yn aml yn eu teithio.

1.39 Yn ôl ein harolygon, dim ond 22% o'r menywod o Dungavel a Derwentside oedd wedi cael ymweliad gan deulu neu ffrindiau ers iddynt gyrraedd y canolfannau. Nid oedd y canolfannau wedi pwyso a mesur y rhwystrau rhag cysylltu, gan gymryd yn ganiataol yn aml mai'r lleoliad oedd y brif broblem, er bod ein cyfweliadau wedi datgelu bod rhai menywod yn osgoi cysylltu ag aelodau o'u teuluoedd i'w diogelu. Roedd hyn yn cynnwys peidio â gofyn i aelodau oedrannus neu sâl o'u teuluoedd deithio pellteroedd hir ac osgoi achosi trallod i'w teuluoedd a'u ffrindiau drwy ddatgelu eu bod dan gadwad.

1.40 Ychydig o waith rhagweithiol a welsom gyda menywod nad oedd ganddynt rwydwaith cymorth neu'r rheini a oedd yn wynebu rhwystrau rhag cysylltu â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Nid oedd dealltwriaeth dda o effaith bosibl y diffyg cysylltiad a chymorth hwn, er bod canolfan symud


ymaith Dungavel yn elwa o wasanaeth cyfeillio'r elusen Scottish Detainee Visitors. Roedd y prosesau casglu data hefyd yn wan. Nid oedd y rhan fwyaf o'r canolfannau'n cofnodi a oedd gan fenywod blant na phwy oedd yn gofalu amdanynt, ac roedd rhai arferion yn creu rhwystrau diangen. Mewn un ganolfan, byddai pobl dan gadwad yn cael ffôn pan fyddent yn cyrraedd ond ni fyddent yn cael credyd tan ar ôl y cyfnod cynefino y diwrnod canlynol, rhywbeth a oedd yn peri oedi cyn bod modd iddynt ofyn am gymorth gan eu teuluoedd a'u ffrindiau. Mewn mannau eraill, roedd newidiadau polisi'n golygu bod angen rhybudd o 24 awr i gael galwadau fideo, rhywbeth a oedd yn peri oedi diangen cyn i bobl allu cysylltu â theulu a ffrindiau. Dywedodd un fenyw, yr oedd ei babi yn yr ysbyty, wrthym fod y newidiadau hyn a chyfathrebu gwael yn eu cylch yn golygu na allai weld ei phlentyn am sawl diwrnod.

1.41 I lawer o fenywod heb rwydwaith cymorth allanol, roedd yr ymdeimlad o gymuned ymhlith y menywod mewn canolfannau symud ymaith yn ffynhonnell hanfodol o gymorth. Byddai menywod yn bwyta gyda'i gilydd, yn rhannu gweithgareddau, ac yn rhoi cymorth emosiynol i'w gilydd.

> "Mae'n teimlo fel cartref i mi ac mae'r bobl rydw i wedi bod yn byw gyda nhw yn agos iawn ac mae'n teimlo fel teulu."
>
> Menyw dan gadwad yng nghanolfan symud ymaith Dungavel

# Atodiad I	Methodoleg

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr adolygiad thematig hwn ochr yn ochr â phedwar arolygiad rheolaidd a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2025, ac ymweliad ychwanegol y rhoddwyd gwybod amdano ymlaen llaw â Chanolfan Symud Ymaith Yarl's Wood. Mae pob un o'r canolfannau a gafodd ei chynnwys yn y gwaith maes yn dal menywod dan gadwad mewnfudo. Mae'r map isod yn rhestru'r holl leoliadau yr ymwelwyd â hwy ar gyfer yr adolygiad thematig a nifer y menywod a oedd yn cael eu dal ynddynt ar adeg yr arolygiad, neu yn ystod y chwe mis cyn yr arolygiad yn achos cyfleusterau dal tymor byr dibreswyl.



Casglwyd tystiolaeth fel rhan o brosesau arolygu safonol, gyda rhai ychwanegiadau, fel y nodir isod. Nid oedd yr ymweliad ag Yarl's Wood yn rhan o arolygiad rheolaidd, felly roedd y dystiolaeth ar y safle hwn yn canolbwyntio ar arsylwadau ar y safle ac ymgyngoriadau ag unigolion dan gadwad ac aelodau o'r staff.

## Y fethodoleg ar gyfer cyf-weld unigolion dan gadwad

Cynigiwyd cyfweliad unigol cyfrinachol gydag arolygydd i bob unigolyn dan gadwad yng nghanolfannau symud ymaith Derwentside a Dungavel yn ystod yr arolygiadau llawn. Prif amcanion y cyfweliadau hyn oedd nodi pryderon ynghylch diogelwch a diogelu unigolion dan gadwad, a dyfnhau dealltwriaeth yr arolygwyr o ddiwylliant y ganolfan. Ar gyfer yr adolygiad thematig, cafodd cwestiynau ychwanegol a oedd yn berthnasol i'n prif themâu eu cynnwys ym mhob cyfweliad gyda menywod dan gadwad. Roedd y rhain yn cynnwys cwestiynau am y materion a ganlyn:

- asesiadau Rheol 35 neu Reol 32
- cymorth o dan drefniadau rheoli achosion ACDT
- y gallu i gyfathrebu â staff a phobl eraill dan gadwad
- profiad o'r defnydd o rym
- cysylltiad â phobl y tu allan a oedd yn bwysig iddynt.

Roedd y cyfweliadau wedi'u strwythuro'n rhannol ac fe'u defnyddiwyd fel un ffynhonnell dystiolaeth i osod sail ar gyfer y dyfarniadau llawn a wnaed gan arolygwyr yng nghorff yr adroddiad hwn. Roedd yr unigolion dan gadwad y bu inni siarad â hwy wedi'u dethol eu hunain a dylid ystyried bod y canfyddiadau'n ategu canfyddiadau ein harolygon ymhlith pobl dan gadwad a thrafodaethau eraill a gafwyd gyda phobl dan gadwad drwy gydol yr adolygiad thematig hwn.

## Ymgynghori â phobl dan gadwad

Nid yw pobl dan gadwad yn y cyfleusterau dal tymor byr preswyl na'r cyfleusterau dal tymor byr mewn canolfannau adrodd yn cael cynnig cyfweliadau preifat fel rhan o'n proses arolygu. Mae arolygwyr yn ymgynghori'n anffurfiol â phobl dan gadwad pan fyddant yn y canolfannau i ofyn am eu barn.

## Methodoleg yr arolwg a gynhelir ymhlith pobl dan gadwad

Cynhelir arolwg cynrychioliadol ymhlith pobl dan gadwad ar ddechrau pob arolygiad, ac mae canlyniadau'r arolwg hwn yn cyfrannu at sylfaen dystiolaeth yr arolygiad. Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau strwythuredig sy'n hwyluso dadansoddiad meintiol, gan sicrhau bod modd cymharu grwpiau o fewn y sampl, a chwestiynau penagored ar y diwedd sy'n gyfle i bobl dan gadwad fynegi yn eu geiriau eu hunain yr hyn sydd fwyaf cadarnhaol a negyddol yn eu tyb hwy ynghylch y ganolfan gadw. Ar gyfer yr adolygiad thematig hwn, dadansoddwyd 288 o ymatebion o'r canolfannau symud ymaith a arolygwyd yn ystod 2025 (Colnbrook, Dungavel a Derwentside) er mwyn inni allu cymharu ymatebion y rheini yn unedau'r menywod (Derwentside a Dungavel) ag ymatebion y rheini yn unedau'r dynion (Colnbrook a Dungavel). Nid ydym ond yn cyfeirio at gymariaethau rhwng y ddau grŵp pan fo'r rhain yn arwyddocaol yn ystadegol. Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i phennu ar 0.01, sy'n golygu nad oes ond posibilrwydd o 1% fod y gwahaniaeth yn y canlyniadau i'w briodoli i siawns.

Cyhoeddir dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth am y fethodoleg a'r arolwg, a dogfennau cymharol sy'n dangos canlyniadau'r arolwg, ochr yn ochr â'r adroddiadau ar gyfer y sefydliadau unigol ar ein gwefan.

## Arolwg ymhlith staff canolfannau

Gwahoddir staff o bob canolfan symud ymaith i gwblhau arolwg staff fel rhan o'r broses arolygu. Cafodd gwybodaeth o'r arolygon hyn ei hadolygu a'i defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad thematig hwn. Cyhoeddir canlyniadau'r arolwg ochr yn ochr â'r adroddiadau ar gyfer y sefydliadau unigol ar ein gwefan.

## Cais am ddata

Fel rhan o'r broses arolygu ar gyfer pob canolfan symud ymaith a phob cyfleuster dal tymor byr, anfonir cais am ddata i'r Swyddfa Gartref ac at gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau'r canolfannau. Mae hyn yn casglu gwybodaeth reoli am brif brosesau'r canolfannau a gwybodaeth am fregusrwydd. At ddiben yr adolygiad thematig hwn, gofynnwyd am ddadansoddiadau ychwanegol yn benodol ar gyfer menywod dan gadwad.

## Adolygiadau gwaith achos

Samplwyd detholiad bach o achosion menywod dan gadwad fel rhan o'r adolygiadau gwaith achos ar gyfer pob arolygiad mewn canolfan symud ymaith, gan ganolbwyntio ar hanesion mewnfudo menywod a'r modd y mae'r Swyddfa Gartref wedi rheoli'r achosion hyn. Ar draws y ddau safle, roedd hyn yn cynnwys cyfanswm o 16 achos.

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig i nodi ac i fireinio themâu allweddol o'r data a gasglwyd a'r rhyngweithio â staff a phobl dan gadwad. Canolbwyntiwyd ar gadw lleisiau'r menywod drwy gydol y broses ddadansoddi. Defnyddiwyd dyfyniadau gair am air ac astudiaethau achos hefyd i ddarlunio'r themâu ac i ddarparu gwybodaeth fanylach am brofiadau penodol menywod dan gadwad.

Cynhaliwyd y prosiect hwn yn unol ag egwyddorion moesegol Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer gweithgareddau ymchwil: Ethical principles for research – HM Inspectorate of Prisons

# Atodiad II Rhestr termau

**ACDT**
Proses rheoli achosion asesu, gofal dan gadwad a gwaith tîm i gynorthwyo'r rheini sy'n wynebu risg o hunan-niweidio neu hunanladdiad.

**Caniatâd i gael mynediad (LTE)**
Math o ganiatâd i gael mynediad o dan gyfraith mewnfudo'r DU sy'n caniatáu i wladolion gwledydd heblaw'r DU gael mynediad i'r DU at ddibenion penodol fel gweithio, astudio, ymweld â theulu neu dwristiaeth. Fe'i rhoddir fel rheol am gyfnod penodol ac mae amodau penodol ynghlwm wrtho.

**Caniatâd i aros (LTR)**
Caniatâd a roddir i wladolion gwledydd heblaw'r DU i aros yn gyfreithlon yn y DU ar ôl gwneud cais o'r tu mewn i'r wlad. Gellir ei ddyroddi am gyfnod penodol, y cyfeirir ato'n gyffredin fel caniatâd cyfyngedig, neu ar sail barhaol fel Caniatâd Amhenodol i Aros (ILR).

**IS91 (RA) rhan C**
Fe'i defnyddir i roi gwybod i dimau gwaith achos am newid i statws agored i niwed unigolyn dan gadwad.

**Mecanwaith atgyfeirio cenedlaethol (NRM)**
Fframwaith ar gyfer nodi ac atgyfeirio dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern a gwneud yn siŵr eu bod yn cael cymorth priodol.

**Polisi oedolion sy'n wynebu risg**
Mae'r polisi oedolion sy'n wynebu risg yn fframwaith ar gyfer penderfynu, pan fo person yn cael ei asesu fel person agored i niwed, a oes rhagdybiaeth bendant yn erbyn ei gadw, neu a oes pryderon mewnfudo a allai gyfiawnhau parhau i'w gadw. Ceir tair lefel asesu: lefel 1, pan fo unigolyn wedi datgan ei hun ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg; lefel 2, pan fo tystiolaeth ddogfennol broffesiynol a/neu swyddogol yn dangos bod (neu y gall fod) unigolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg; a lefel 3, pan, ar sail tystiolaeth ddogfennol broffesiynol a/neu swyddogol, fo'r unigolyn yn wynebu risg ac y byddai cyfnod dan gadwad yn debygol o beri niwed.

**Proses Rheol 32 (R32)**
Mesur diogelu statudol allweddol sy'n gorfodi darparwyr gofal iechyd mewn cyfleusterau dal tymor byr preswyl i roi gwybod i'r Swyddfa Gartref am unigolion y nodir eu bod yn agored i niwed o gael eu cadw'n barhaus – oherwydd dirywiad neu ddirywiad disgwyliedig eu hiechyd (R32(1)), meddyliau hunanladdol (R32(2)), a/neu brofiadau blaenorol o artaith (R32(3)) – gan sbarduno adolygiad o'u statws cadwad.

**Proses Rheol 35 (R35)**
Mesur diogelu statudol allweddol sy'n gorfodi darparwyr gofal iechyd mewn canolfannau symud ymaith i roi gwybod i'r Swyddfa Gartref am unigolion y nodir eu bod yn agored i niwed o gael eu cadw'n barhaus – oherwydd dirywiad neu ddirywiad disgwyliedig eu hiechyd (R35(1)), meddyliau hunanladdol (R35(2)),

a/neu brofiadau blaenorol o artaith (R35(3)) – gan sbarduno adolygiad o'u statws cadwad.

**Wedi'i fechnïo (Barnwr Mewnfudo)**
Mae'n cyfeirio at gael mechnïaeth wedi'i rhoi gan farnwr mewnfudo drwy Dribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches). Gellir gwneud y cais hwn os yw rhywun wedi cyrraedd y DU fwy nag wyth niwrnod yn ôl.

**Wedi'i fechnïo (Ysgrifennydd Gwladol)**
Mae'n cyfeirio at gael mechnïaeth wedi'i rhoi gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn sgil cais gan unigolyn dan gadwad. Gellir gwneud y cais hwn o'r diwrnod cyntaf y bydd rhywun yn cyrraedd y DU.

# Atodiad III Cyfeiriadau


Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (2025). Report on an unannounced inspection of Derwentside Immigration Removal Centre by HM Chief Inspector of Prisons, 15 September – 3 October 2025. Ar gael yn: Derwentside IRC – HM Inspectorate of Prisons

Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (2025). Report on an unannounced inspection of Dungavel Immigration Removal Centre by HM Chief Inspector of Prisons, 18–21 August and 1–4 September 2025. Ar gael yn: Dungavel House IRC – HM Inspectorate of Prisons

Y Swyddfa Gartref (2024). Adults at risk in immigration detention. Ar gael yn: Adults at risk in immigration detention (accessible) - GOV.UK

Y Swyddfa Gartref (2024). How many people are detained or returned? Ar gael yn: How many people are detained or returned? - GOV.UK

Y Swyddfa Gartref (2026). Immigration System Statistics year ending December 2025. Ar gael yn: detention-datasets-dec-2025.xlsx

Y Swyddfa Gartref (2016). Review into the Welfare in Detention of Vulnerable Persons. A report to the Home Office by Stephen Shaw. Ar gael yn: Shaw Review

Justice First (2023). Women in immigration detention. Ar gael yn: Women-In-Immigration-Detention-with-Hyperlinks-Prints-on-4-pages.pdf

Women for Refugee Women (2025). A decade of harm: survivors of gender-based violence locked up in immigration detention. Ar gael yn: [DIGITAL] A decade of harm: Survivors of gender-based violence locked up in immigration detention

# Atodiad IV Cydnabyddiaeth

## Tîm y prosiect

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Rachel Badman (Arolygydd).

Aelodau tîm gwaith maes y prosiect oedd: Martin Kettle, Fiona Shearlaw, Rachel Badman, Alice Oddy, Deri Hughes-Roberts, Chelsey Pattison (Arolygwyr) a Hindpal Singh Bhui (Arweinydd y Tîm Arolygu).

Darparwyd cymorth ychwanegol gan Helen Ranns a Joe Simmonds (Uwch-swyddogion Ymchwil), Sophie Riley (Pennaeth Ymchwil, Data ac Adolygiadau Thematig), Elizabeth Renard (Pennaeth Polisi), a Tamsin Williamson (Pennaeth Cyfathrebu a Chyhoeddiadau).

Hoffai tîm y prosiect hefyd fynegi eu diolch i'r holl staff, rheolwyr a phobl dan gadwad ar y safleoedd y bu inni ymweld â hwy am rannu eu mewnwelediadau a'u profiadau â ni. Hoffem hefyd ddiolch i'r Swyddfa Gartref ac i ddarparwyr gwasanaethau dan gontract am ddarparu data ychwanegol inni at ddibenion yr adolygiad thematig hwn ac i Women for Refugee Women a Scottish Detainee Visitors am siarad â ni yn ystod y broses o lunio'r prosiect hwn.